

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Davies

[joshua.r.davies@rctcbc.gov.uk](mailto:joshua.r.davies@rctcbc.gov.uk)

## **Gofynnwch am/Please ask for A McGowan**

**Fy Nghyf/My Ref:** 101006637764

**Dyddiad/Date:** 20/04/2022

Annwyl y Cynghorydd Davies,

Cyfeiriaf at y ddeiseb a gyflwynoch chi i'r Cyngor yn gofyn am gyflwyno mesurau gostegu traffig ar Heol Tyle-celyn, Pen-y-graig.

Yn anffodus, dydy'r problemau a godwyd ddim yn anghyffredin ac mae'r Cyngor yn derbyn nifer o geisiadau am gyflwyno mesurau rheoli traffig er mwyn lleihau cyflymder ledled Rhondda Cynon Taf.

Lle bo tystiolaeth sy'n cadarnhau'r angen am fesurau diogelwch y ffyrdd, mae hawl gan y Cyngor i gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am gyllid Grant Diogelwch y Ffyrdd bob blwyddyn. Cyfanswm yr arian y mae modd i'r 22 o gynghorau yng Nghymru gyflwyno cais amdano yw tua £5 miliwn ac mae nifer y ceisiadau'n tueddu bod yn llawer uwch na'r cyllid sydd ar gael. Mae meini prawf y cyllid yn canolbwyntio ar leihau nifer y damweiniau felly dim ond cynlluniau sydd wedi'u hanelu'n effeithiol at leoliadau lle mae potensial i leihau nifer y damweiniau presennol sy'n debygol o gael eu blaenoriaethu ar gyfer cyllid Grant Diogelwch y Ffyrdd.

Mae adolygiad o wrthdrawiadau sydd wedi digwydd yn ystod y tair blynedd diwethaf (os yw data ar gael ar gyfer y cyfnod hwnnw) yn dangos bod cofnod swyddogol o saith gwrthdrawiad a arweiniodd at anafiadau personol ar Heol Tyle-celyn. Serch hynny, roedd cyflymder wedi cyfrannu at un o'r gwrthdrawiadau yma'n unig.

### **Gwasanaethau Rheng-flaen**

#### **Frontline Services**

Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

### **Roger Waters BSc CEng MICE**

Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng-flaen | Director – Frontline Services

## **Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



**MAE EICH DATA O BWYS** [www.rctcbc.gov.uk/diogeludata](http://www.rctcbc.gov.uk/diogeludata)  
**YOUR DATA MATTERS** [www.rctcbc.gov.uk/dataprotection](http://www.rctcbc.gov.uk/dataprotection)



Mae'n bwysig ein bod ni'n gosod pryderon am gyflymder ar wahân i wrthdrawiadau sy'n arwain at anaf personol. Dydy pob gwrthdrawiad ddim yn ymwneud â chyflymder a rhoddir blaenoriaeth i ardaloedd lle bydd cyflwyno mesurau corfforol yn arwain at lai o anafiadau personol. Felly, fyddai'r lleoliad yma ddim yn gymwys ar gyfer cyllid yn unol â meini prawf y grant. Does gen i ddim manylion ynglŷn â'r ddamwain ddiweddar a byddai hi'n ddiotal i mi wneud sylwadau am yr hyn a'i hachosodd. Mae hefyd yn bwysig nodi mai dim ond gwrthdrawiadau sy'n arwain at anaf personol sy'n cael eu hadrodd.

Dim ond hyn a hyn o gyllid sydd gan y Cyngor i fynd i'r afael â materion rheoli traffig, gan gynnwys mesurau diogelwch y ffyrdd. Serch hynny, mae nifer y ceisiadau sy'n dod i law yn fwy na'r cyllid sydd ar gael. Felly, mae rhaid i bob cais am fesurau o'r fath fod yn rhan o broses flaenoriaethu er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf yn cael eu pennu a'r adnoddau cyfyngedig yn cael eu rhoi fel y bo'n briodol.

Ar ôl edrych ar y cofnod gwrthdrawiadau ac anafiadau personol ar gyfer y 3 blynedd diwethaf, mae hi'n annhebygol y byddai'r lleoliad yma'n llwyddiannus yn ystod y broses flaenoriaethu o'i gymharu â cheisiadau eraill am fesurau gostegu traffig yn y Sir. Felly, does gan y Cyngor ddim bwriad i gyflwyno mesurau gostegu traffig yn y man yma ar hyn o bryd.

Bydd y pryderon o ran cyflymder yn cael eu trosglwyddo i'r Heddlu er mwyn iddyn nhw ystyried cymryd camau priodol. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd gyda chi ddiddordeb mewn sefydlu Cynllun Gwyllo Cyflymder Cymunedol yn ardal Pen-y-graig.

Mae modd i drigolion gwblhau ffurflen pryderon ar wefan GoSafe: <https://gosafe.org/contact-us/community-concern/?lang=cy>.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth a gofynnaf i chi, a chithau'n brif ddeisebydd, rannu hyn â'ch cyd-ddeisebwyr.